

**Strategaeth Hybu'r
Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-
bont ar Ogwr
2021 i 2026**

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cyd-destun polisi.....	4
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.....	4
Safonau'r Gymraeg.....	4
Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg.....	5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.....	5
Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.....	6
Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018–2022....	6
Proffil Cymraeg Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	6
Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.....	7
Wardiau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.....	9
Gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	10
Ysgolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	11
Amcanion	12
Cyfnodau cyflwyno strategaeth iaith Gymraeg (blynyddoedd)	12
Canran o siaradwyr Cymraeg a ragamcanir.....	12
Partneriaid allweddol.....	13
Menter Bro Ogwr.....	14
Prifysgol De Cymru	14
Yr Urdd	14
Fforwm Iaith	14
Mudiad Meithrin	14
Gweithredu a monitro	15
Atodiadau:.....	16
Atodiad un: canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ward o Gyfrifiad 2011.....	16
Atodiad dau: cynllun gweithredu	18

Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad i'r cyngor gynhyrchu Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd o hyd. Mae hwn yn ofyniad statudol sy'n ymwneud â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011. Dyma ein hail Strategaeth Iaith Gymraeg a'i nod yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf.

Safon y Gymraeg	Disgrifiad o'r safon
Safon y Gymraeg 145	Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) – (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).
Safon y Gymraeg 146	Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi – (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn – (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny; (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Lluniodd y strategaeth Gymraeg gyntaf chwe amcan, tri a oedd yn canolbwyntio ar arferion mewnol a thri a oedd yn canolbwyntio ar ein cymunedau.

Y tri amcan allweddol ar gyfer arferion mewnol oedd fel a ganlyn:

- Amcan un: Nodi'r gallu mewn meysydd gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg
- Amcan dau: Darparu atebion dysgu a datblygu priodol ar lefelau amrywiol i ddiwallu anghenion a nodwyd o fewn dyraniad y gyllideb
- Amcan tri: Sefydlu trefniadau wrth recriwtio i swyddi lle mae sgiliau'r iaith Gymraeg yn hanfodol

Y tri amcan allweddol ar gyfer ein cymunedau oedd fel a ganlyn:

- Amcan un: Codi proffil y Gymraeg, diwylliant a gweithgareddau a digwyddiadau lleol a drefnir gan y cyngor a'n partneriaid mewn ffordd strwythuredig.
- Amcan dau: Cynyddu'r gwaith o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y cyngor yn enwedig mewn perthynas ag amcanion un, dau a phedwar y cynllun.
- Amcan tri: Archwilio (a gweithredu lle bo modd) unrhyw weithgareddau newydd a fydd yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ehangach o fewn y fwrdeistref sirol, gan hyrwyddo'r rhain yn briodol.

Mae cynnydd yn erbyn yr amcanion ar gyfer 2016-2021 wedi'i adrodd bob blwyddyn i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet, a chyhoeddir adroddiadau blynyddol ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r strategaeth bresennol hon yn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud, yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol, yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, ac, yn bwysicaf, yn ystyrlon, perthnasol a chyraeddadwy i bawb sydd ynghlwm.

Wrth lunio'r strategaeth hon, rhoddwyd ystyriaeth i'r cyd-destun polisi ac mae proffil iaith o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i greu. Mae chwe amcan trosfwaol wedi'u datblygu gyda 28 o gamau gweithredu a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni'r nodau hyn.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, ymgynghorwyd â'r cyhoedd, rhanddeiliaid allweddol, ysgolion ac aelodau. Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 439 o ymatebion cyflawn, ac mae'r ymatebion hyn wedi'u defnyddio er mwyn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer Strategaeth Iaith Gymraeg 2020-2026. Mae hyn yn golygu bod ein strategaeth yn defnyddio meini prawf cenedlaethol sefydledig ond gan leoleiddio'r wybodaeth a thargedau.

Cyd-destun polisi

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na all yr iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffatriol na'r Saesneg.

Sefydlwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'n cydnabod bod dwy iaith swyddogol yng Nghymru, sef Cymraeg a Saesneg. Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi pobl i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dewis gwneud hynny. O 1 Ebrill 2018, gwnaeth Safonau'r Gymraeg ddisodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Safonau'r Gymraeg

Cyhoeddwyd Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei hysbysiad cydymffurfio terfynol ar gyfer

Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn cynnwys 171 o safonau, 144 a oedd yn ofynnol erbyn mis Mawrth a 27 ychwanegol erbyn mis Medi 2016. Mae'r comisiynydd wedi rhannu'r rhain yn bum thema:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Hyrwyddo
- Gweithredol
- Cadw cofnodion

Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi sy'n amlinellu cydymffurfiaeth â'r safonau, cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at yr amcanion, a sut, mewn cydweithrediad â phartneriaid, yr hyrwyddwyd y Gymraeg a hwyluswyd defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn y fwrdeistref sirol.

Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg

Yn 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru'r cynllun Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg, sy'n amlinellu'r nod o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n dilyn '*laith Fyw: laith Byw 2012-2017*' ac mae'n strategaeth ar gyfer Cymru gyfan ac yn weledigaeth hirdymor er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Er mwyn cyflawni'r targed hwn, mae'n cydnabod bod yn rhaid nodi'r sylfeini a'r camau gweithredu yn awr ac mae'n rhaid iddynt adlewyrchu graddfa'r uchelgais hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi tair thema strategol i gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
2. Cynyddu defnydd y Gymraeg.
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chynnwys.

Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu strategaethau sy'n berthnasol i bob ardal o Gymru. Er enghraifft, mewn cymunedau Cymraeg, yr her yw sicrhau bod gan bobl swyddi o safon da, gyrfaoedd boddhaus, a chartrefi er mwyn iddynt allu aros yn y cymunedau hynny neu ddychwelyd iddynt. Mewn ardaloedd eraill, bydd hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg fel iaith ar gyfer y gweithle a busnes yn dod yn fwyfwy pwysig.

Mae themâu a nodau'r strategaeth hon wedi llywio ein hamcanion i greu camau gweithredu sydd o arwyddocâd cenedlaethol ond wedi'u canolbwyntio'n lleol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith eu penderfyniadau yn yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.'

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar sail statudol ac mae hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Dylai pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal trwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant.

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

Mae wedi bod yn ofynnol i'r holl awdurdodau lleol ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cwmpasu'r deng mlynedd rhwng 2022 a 2032, a dylai gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 31 Ionawr 2022. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Cynllun Strategol Cymraeg wedi'u halinio'n agos i sicrhau bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau i gael ei hyrwyddo fel rhan o'r Strategaeth Iaith Gymraeg, ac i gydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fel rhan o adroddiad blynyddol y Strategaeth Iaith Gymraeg.

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018–2022

Mae'r cynllun corfforaethol yn rhan ganolog o bensaernïaeth fusnes yr awdurdod lleol, gan gysylltu elfennau allweddol megis polisi, trefnu, gweithgarwch gweithredol, llywodraethu, a rheoli perfformiad. Mae cynllun corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amlinellu'r amcanion llesiant a'r canlyniadau hirdymor ar gyfer y fwrdeistref sirol. Wrth lunio'r cynllun corfforaethol hwn, mae'r cyngor wedi ystyried y math o sefydliad y mae am fod. Y weledigaeth yw gweithredu fel “**Un cyngor yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau**”. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyflawni'r amcan llesiant canlynol:

- Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus
- Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy gwydn
- Defnyddio adnoddau'n ddoethach

Proffil Cymraeg Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae dyfeisio proffil iaith cyfredol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r gwaith o lunio amcanion a chanlyniadau cyraeddadwy. Mae setiau data gwahanol sy'n amlinellu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y set ddata a ddyfynnir fwyaf yw data'r Cyfrifiad, sy'n casglu gwybodaeth gan y boblogaeth gyfan. Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf yn 2011. Set ddata arall yw Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n casglu data o sampl lai. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n cynnwys cwestiynau ynghylch a all pobl siarad Cymraeg, pa mor aml y maent yn gwneud hynny, a lefel eu rhuglder. Gofynnir y cwestiynau i bobl 16+ oed. Mae amcangyfrifon yr arolwg o nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn hanesyddol na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad.

Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gartref i 139,178 o bobl. Mae amcangyfrifon canol blwyddyn yn 2019 yn amcangyfrif bod y boblogaeth wedi cynyddu i 147,049.¹ Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o'r boblogaeth yn rhagweld y bydd poblogaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 150,447 erbyn 2026.²

Nododd Cyfrifiad 2011 yr atebodd 9.7 y cant (13,103 o bobl) o bobl dros tair oed sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 'Ydw' i'r cwestiwn 'Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?' Mae ystod oedran yr ymatebwyr hyn wedi'u rhannu yn y tabl isod:


Band oedran	Nifer	% y cyfanswm yn y band
3 – 4	473	15.3
5 – 9	1,843	24.3
10 – 14	2,450	29.3
15 – 19	1,740	20.7
20 – 24	937	11.4
25 – 29	803	9.5
30 - 34	663	8.0
35 – 39	698	7.6
40 – 44	589	5.6
45 – 49	445	4.2
50 – 54	430	4.6
55 – 59	386	4.5
60 – 64	363	4.0
65 - 69	323	4.3
70 – 74	272	4.4
75 – 79	247	5.2
80 – 84	201	6.1

¹ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year>


² <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year>

85+	240	7.9
Cyfanswm	13,103	-


O'r rhai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, roedd 7,263 yn fenywod (10 y cant o'r boblogaeth fenywaidd) ac roedd 5,840 yn ddynion (8.8 y cant o'r boblogaeth wrywaidd).




Ym mis Medi 2020, nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru y gallai 17.5 y cant (24,100 o bobl) o bobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr siarad Cymraeg, sef cynnydd o 3.1% o'r un arolwg yn 2005.



Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru (Medi 2020) mai'r ganran gyfartalog o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru oedd 28.8 y cant. Allan o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i restru yn 21 ar gyfer canran y siaradwyr Cymraeg.



Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn casglu data ar y rhai sydd â rhywfaint o allu o ran siarad Cymraeg. Yn 2018-2019, roedd canran yr oedolion (dros 16 oed) sydd â rhywfaint o allu o ran siarad Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 13 y cant. Mae hwn yn gynnydd o 4 y cant ers yr un arolwg yn 2016-2017.




Wardiau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ogystal â nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref, mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn amlygu siaradwyr Cymraeg ym mhob ward yn y fwrdeistref. Mae 39 o wardiau sy'n ffurfio Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nododd Cyfrifiad 2011 fod y pum ward â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg fel a ganlyn:

- Llangynwyd: 13.6 y cant
- Bryncethin: 13.3 y cant

- Gorllewin Maesteg: 13.1 y cant
- Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr: 12 y cant
- Pen-y-fai: 11.9 y cant



Gweler Atodiad 1 er mwyn gweld canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob un o'r wardiau o Gyfrifiad 2011.

Gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ar 31 Mawrth 2020, nododd 4.46% o weithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y gallent siarad y Gymraeg yn rhugl, nododd 2.3% pellach y gallent siarad y Gymraeg yn eithaf da, a nododd 14.47% y gallent siarad ychydig o'r Gymraeg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ar 31.03.2020				
Siaradwr Cymraeg	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	%
'Ychydig'	166	677	843	14.47%
'Eithaf da'	21	113	134	2.30%
'Rhugl'	44	226	270	4.64%

Nododd 1.65% o weithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y gallent ddarllen y Gymraeg yn rhugl, nododd 2.83% pellach y gallent ddarllen y Gymraeg yn eithaf da, a nododd 15.21% y gallent ddarllen ychydig o'r Gymraeg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ar 31.03.2020				
Darllenwr Cymraeg	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	%
'Ychydig'	173	713	886	15.21%
'Eithaf da'	31	133	164	2.82%
'Rhugl'	43	228	271	1.65%

Nododd 4.16% o weithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y gallent ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl, nododd 2.49% pellach y gallent ysgrifennu'r Gymraeg yn eithaf da, a nododd 12.62% y gallent ysgrifennu ychydig o'r Gymraeg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ar 31.03.2020				
Ysgrifennwr Cymraeg	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	%
'Ychydig'	128	607	735	12.62%
'Eithaf da'	27	118	145	2.49%
'Rhugl'	38	204	242	4.16%

Gwnaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018-2019) ganfod y canlynol:

- Roedd 80% o siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg ag o leiaf rhai o'u cydweithwyr Cymraeg.
- Adroddodd 93% o weithwyr Cymraeg rhugl eu bod yn siarad o leiaf ychydig o Gymraeg â phobl y tu allan i'w sefydliad. Fodd bynnag, ar gyfer y rhai nad oeddent yn rhugl, dim ond 42% a siaradai'r Gymraeg â'r rhai y tu allan i'r sefydliad.
- Adroddodd ychydig yn llai na thraean o weithwyr fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.³

Ysgolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ger Maesteg yw ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr ac mae ganddi bedair ysgol fwydo o fewn y fwrdeistref sirol: Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Ysgol y Ferch o'r Sgêr yng Nghorneli, Ysgol Cynwyd Sant ym Maesteg, ac Ysgol Gynradd Calon y Cymoedd ym Metws. Mae wyth ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, dwy ysgol arbennig cyfrwng Saesneg, a 46 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn y fwrdeistref sirol.

³ https://llyw.cymru/y-gymraeg-yn-y-gweithle-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019?_ga=2.190062510.427300520.1629797656-1017188180.1629797656

Mae cynlluniau hefyd ar waith ar gyfer pedwar lleoliad blynyddoedd cynnar ym Metws, Cwm Ogwr, Porthcawl a thref Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn bwydo ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Amcanion

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg*, yn nodi uchelgais y llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae rhagamcaniad ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg dros dair oed hyd at 2050 wedi'i gynhyrchu fel rhan o'r strategaeth.

Rhagamcanir y bydd **666,000 o bobl sy'n dair oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2050, cyfwerth â thua 21 y cant o'r boblogaeth**. Mae hwn yn ychydig dros 100,000 mwy o siaradwyr Cymraeg nag oedd yn 2011 ond tua 334,000 yn llai na'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Felly, nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw bod 21% o breswylwyr sy'n dair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 9.7% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n dair oed a hŷn eisoes yn siaradwyr Cymraeg, sy'n golygu bod angen i hwn gynyddu 11.3% er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru erbyn 2050.

Er mwyn cyrraedd y targed hwn, y nod yw cynyddu siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol o leiaf 1.9% yn ystod oes y strategaeth bresennol a phob cyfnod strategaeth canlynol hyd at 2050.

Cyfnodau cyflwyno strategaeth iaith Gymraeg (blynyddoedd)	Canran o siaradwyr Cymraeg a ragamcanir
2011 (data'r Cyfrifiad)	9.7% (gwirioneddol)
2021-2026	11.6%
2026-2031	13.5%
2031-2036	15.4%
2036-2041	17.3%
2041-2046	19.2%
2046-2051	21.1%

Yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed gyda'r amcanion o'r strategaeth iaith Gymraeg pum mlynedd ddiwethaf, yr adborth o'r ymgynghoriad, a datblygiadau lleol a chenedlaethol, mae'r amcanion trosfwaol canlynol wedi'u datblygu:

- **Hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu:**

Cynyddu'r cyfleoedd i staff gael mynediad at y Gymraeg a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

- **Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:**

Codi proffil y Gymraeg, diwylliant, a gweithgareddau a digwyddiadau lleol a drefnwyd gan y cyngor a'n partneriaid mewn ffordd strwythuredig a gwella mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Cefnogi a hyrwyddo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg:**

Parhau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ehangu addysg Gymraeg yn y sir, a darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg cymunedol i oedolion. Hyrwyddo pob amcan yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ond, yn benodol, hyrwyddo a monitro canlyniadau un, dau, tri, pedwar a phump.

- **Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant ym musnesau ac elusennau canol trefi:**

Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg o fewn busnesau, elusennau, maes twristiaeth, maes gofal ac ati a chefnogi hyrwyddo argaeledd cynhyrchion a gwasanaethau Cymraeg.

- **Cyfranogi ac ymgysylltu:**

Sicrhau bod pob ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn gofyn i breswylwyr roi adborth ar sut y gallai'r polisi neu'r gynigion effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg, neu gael effaith ar yr iaith, a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus blynyddol (am oes y strategaeth) er mwyn galluogi adborth ar wasanaethau Cymraeg a pherfformiad.

- **Gweithredu'r lleoliadau blynyddoedd cynnar newydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:**

Cyflwyno cynlluniau datblygu blynyddoedd cynnar ym Metws, Cwm Ogwr, Porthcawl a thref Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn cefnogi ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hyrwyddo lleoliadau blynyddoedd cynnar a datblygu, ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, lwybr gyrfa sy'n cael ei hyrwyddo i ddysgwyr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

Partneriaid allweddol

Ni all y cyngor ddatblygu'r strategaeth neu gyrraedd unrhyw dargedau cytunedig heb gydweithio â nifer o gyrff a sefydliadau eraill yn y sir, y rhanbarth ac yn genedlaethol yng Nghymru. Mae ymdrech ar y cyd gan bawb sydd ynghlwm yn cynnig y cyfle i ddiwallu uchelgeisiau'r strategaeth hon.

Er ei bod yn ddyletswydd ar y cyngor i gyhoeddi'r strategaeth, ni all weithredu a chyflawni'r holl ofynion ar ei ben ei hun. Trwy ymgynghori â chymaint o bartneriaid lleol, mae hefyd yn golygu y bydd y strategaeth ar ei ffurf derfynol yn "berthyn" i bawb, trwy weithio'n agos gyda phartneriaid, sefydliadau, ysgolion, unigolion a chymunedau. Mae'r cyngor yn hyderus y bydd cyflwyno'r strategaeth hon yn hybu'r Gymraeg yn llwyddiannus a chefnogi'i llwyddiant parhaus yn y fwrdeistref sirol.

Menter Bro Ogwr

Sefydlwyd Menter Bro Ogwr yn 1993 gan ychydig o bobl frwdfrydig a oedd am sicrhau bod gan y Gymraeg lais yn y sir.

Bwriad y fenter oedd codi proffil yr iaith ym Mro Ogwr trwy gynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â meithrin hyder a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg newydd.

Mae menter Gymraeg Bro Ogwr yn hybu defnydd o'r Gymraeg trwy gydweithio â chymdeithasau, busnesau, dysgwyr ac ysgolion. Bwriad y fenter yw codi proffil y Gymraeg yn y sir trwy gynyddu'r cyfleoedd i breswylwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o feysydd.

Mae'r cyngor yn parhau i weithio gyda Menter Bro Ogwr i hysbysebu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac mae Menter Bro Ogwr yn gweithio gyda Halo ac Ymddiriedolaeth Awen er mwyn darparu cyrsiau hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg i oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Prifysgol De Cymru

Mae Prifysgol De Cymru wedi bod yn ddarparwr ein cyrsiau Cymraeg ers nifer o flynyddoedd ac, ar hyn o bryd, mae'n cyflwyno cymhwyster Cwrs Mynediad Blwyddyn 1 ar gyfer gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gweithwyr naill ai yn cael eu cefnogi i fynychu'r cwrs hwn neu'n cael eu cefnogi, os ydynt yn dymuno mynychu lefelau uwch, i wneud hynny o dan Brotocol Hyfforddiant y Gymraeg, gan fynychu cyrsiau a gyflwynir gan Brifysgol De Cymru yn y gymuned.

Yr Urdd

Mae'r Urdd, fel sefydliad ieuenctid cyfrwng Cymraeg, yn canolbwyntio ar roi'r cyfle i bobl ifanc ddatblygu fel unigolion cyflawn. Yng Nghasnewydd, mae'r Urdd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan gynnig amrediad o weithgareddau i ddisgyblion drwy gydol y flwyddyn. Yr Urdd yw prif drefnydd yr Eisteddfod flynyddol, ond mae hefyd yn trefnu gweithgareddau preswyl a chwaraeon i bobl ifanc.

Mae partneriaeth â'r Urdd wedi cynnwys parhau â'r datblygiad llwyddiannus o'r rhaglenni 'Chwaraeon Bach' i deuluoedd, sy'n cynnwys rygbi, pêl-rwyd a pêl-droed, gan gyflwyno rhaglen strwythuredig o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i ysgolion ail iaith, a chefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg, gydag arweinwyr a hyfforddwyr yn derbyn hyfforddiant.

Fforwm Iaith

Mae Fforwm Iaith Bro Ogwr yn cynnwys amrediad o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Nod y grŵp yw creu fforwm ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a lledaenu arfer da.

Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn sefydliad gwirfoddol a phrif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Y nod yw rhoi i bob plentyn ifanc yng Nghymru y cyfle i elwa ar brofiadau blynyddoedd

cynnar ac addysg. Mae'r sefydliad yn cyflogi 200 o aelodau o staff yn genedlaethol ac mae 1,500 o aelodau staff ychwanegol yn gweithio mewn cylchoedd meithrin ledled Cymru.

Gweithredu a monitro

Dyma'r ail strategaeth iaith Gymraeg i gael ei datblygu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn cydweithrediad â'i bartneriaid.

Caiff cynnydd yn erbyn yr amcanion ei fonitro bob blwyddyn, gydag atebolrwydd wedi'r rannu ar draws yr holl bartneriaid sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu.

Bydd yr awdurdod lleol yn amlinellu cynnydd a wnaed bob blwyddyn fel rhan o'r adroddiad ar y Gymraeg y gofynnir amdano gennym gan Safonau'r Gymraeg 158, 164 ac 170. Caiff hwn ei adrodd hefyd i Bwyllgor Cydraddoldeb cabinet y cyngor.

Atodiadau:

Atodiad un:canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ward o Gyfrifiad 2011

Ward	Canran y siaradwyr Cymraeg
Llangynwyd	13.6
Bryncethin	13.3
Gorllewin Maesteg	13.1
Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr	12.0
Pen-y-fai	11.9
Hendre	11.6
Pontycymer	11.5
Penprysg	11.1
Felindre	10.7
Dwyrain Maesteg	10.6
Corneli	10.3
Bracla	10.0
Blaengarw	9.8
Hengastell	9.7
Bryn-coch	9.6
Caerau	9.5
Llidiard	9.5
Rest Bay	9.4
Gorllewin Canol Porthcawl	9.3
Llangrallo Isaf	9.1
Y Pîl	9.0
Llangewydd a Brynhyfryd	8.9
Ynysawdre	8.9
Abercynffig	8.7
Castellnewydd	8.6
Sarn	8.6
Morfa	8.4
Notais	8.4
Y Drenewydd yn Notais	8.3

Ward	Canran y siaradwyr Cymraeg
Llangeinwyr	8.2
Nant-y-moel	8.2
Cefn Cribwr	8.1
Pendre	8.0
Betws	7.8
Dwyrain Canol Porthcawl	7.6
Melin Ifan Ddu	7.5
Cefn Glas	7.4
Cwm Ogwr	6.8
Coety	6.5

Atodiad dau: cynllun gweithredu

Amcan un: Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu	
	Camau gweithredu:
1.1	Creu rhwydwaith o siaradwyr Cymraeg i helpu i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle
1.2	Cynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn yr amgylchedd gwaith
1.3	Hyrwyddo a chefnogi hyfforddiant Cymraeg i bob gweithiwr, naill ai trwy ddarpariaeth fewnol neu gyrsiau yn y gymuned
1.4	Hyrwyddo argaeledd a defnydd y gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg
1.5	Codi proffil y Gymraeg, diwylliant, a gweithgareddau a digwyddiadau lleol a drefnir gan y cyngor a'n partneriaid mewn ffordd strwythuredig gyda'r holl staff

Amcan dau: Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	
	Camau gweithredu:
2.1	Llunio a gweithredu cynllun cyfathrebu penodol i annog mwy o bobl i gyrchu gwasanaethau ar-lein yn y Gymraeg Codi ymwybyddiaeth o'r wefan Gymraeg er mwyn cynyddu defnydd
2.2	Codi proffil y Gymraeg, diwylliant, a gweithgareddau a digwyddiadau lleol a drefnir gan y cyngor a'n partneriaid mewn ffordd strwythuredig yn y gymuned
2.3	Dathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg bob blwyddyn ynghyd â digwyddiadau diwylliannol Cymraeg

Amcan tri: Cefnogi a hyrwyddo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	
	Camau gweithredu:
3.1	Parhau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
3.2	Parhau i ddatblygu ac ehangu addysg gynradd ac uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir
3.3	Gwella cyfleoedd i bobl 16+ oed ddefnyddio'r Gymraeg
3.4	Hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg i oedolion
3.5	Hyrwyddo cynnydd yn erbyn canlyniadau un, dau, tri, pedwar a phump y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
3.6	Codi proffil addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fuddion fod yn ddwyieithog

Amcan pedwar: Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant ym musnesau ac elusennau canol trefi

	Camau gweithredu:
4.1	Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg ym maes busnes, maes twristiaeth, maes gofal ac ati
4.2	Ymgymryd ag arolwg i sefydlu sgiliau Cymraeg gweithwyr mewn siopau / lleoedd bwyta / busnesau canol trefi a'r fwrdeistref sirol
4.3	Casglu gwybodaeth am ddarpariaeth Gymraeg mewn busnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'i rhannu'n eang
4.4	Creu taflen wedi'i hanelu'n benodol at siopau a busnesau er mwyn hyrwyddo manteision darparu gwasanaethau'n ddwyieithog a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
4.5	Creu cyfeirlyfr o fusnesau Cymraeg
4.6	Codi proffil y Gymraeg, diwylliant, a gweithgareddau a digwyddiadau lleol a drefnir gan y cyngor a'n partneriaid mewn ffordd strwythuredig yn y gymuned
4.7	Hyrwyddo'r cynllun Helo Blod i fusnesau

Amcan pump: Cyfranogi ac ymgysylltu

	Camau gweithredu:
5.1	Datblygu ymgynghoriad cyhoeddus blynyddol (am oes y strategaeth) er mwyn galluogi adborth ffurfiol i'r cyngor a'i bartneriaid/rhanddeiliaid ar eu gwasanaethau Cymraeg a pherfformiad
5.2	Sicrhau bod prosesau asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn parhau i arddangos bod sylw dyledus wedi'i roi i ddefnydd o'r Gymraeg a'r effaith arni
5.3	Sicrhau bod pob ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn gofyn i breswylwyr roi adborth ar sut y gallai'r polisi neu'r gynigion effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg neu gael effaith arni
5.4	Annog cyfranogiad trwy lunio fersiwn hawdd ei deall yn Gymraeg a fersiwn ieuenctid yn Gymraeg pan fo hynny'n briodol i'r ymgynghoriad

Amcan chwech: Gweithredu'r lleoliadau blynyddoedd cynnar newydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

	Camau gweithredu:
6.1	Cyflawni cynlluniau datblygu blynyddoedd cynnar ym Metws, Cwm Ogwr, Porthcawl a thref Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn bwydo ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr
6.2	Gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod lleoliadau blynyddoedd cynnar yn cael eu hyrwyddo

Amcan chwech: Gweithredu'r lleoliadau blynyddoedd cynnar newydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	
--	--

	Camau gweithredu:
--	-------------------

6.3	Datblygu, ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, lwybr gyrfu sy'n cael ei hyrwyddo yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
-----	--